Yr adolygiad – casglu ystod a dyfnder yr wybodaeth

Sefyllfa un – arferion Asesu ar gyfer Dysgu (AagD)

Yn yr ysgol gynradd fawr hon, gofynnodd yr arweinwyr i'r tîm adolygu chwilio am dystiolaeth am y graddau y gweithredwyd arferion AagD yn gyson ar draws yr ysgol. Uchelgais yr ysgol yw gwreiddio arferion AagD ymhellach, felly mae angen gwybod pa agweddau y mae pawb yn eu deall yn dda.

Roedd yr ysgol hefyd eisiau gwybod ble roedd yr arferion da, a ble roedd bylchau er mwyn gwella'u gwybodaeth wrth fynd ati i ddatblygu arferion AagD yn y flwyddyn ysgol nesaf.

Petai chi oedd yn cynllunio'r adolygiad hwn, pa ffynonellau tystiolaeth allech chi eu defnyddio?

Yr adolygiad – Casglu ystod a dyfnder y dystiolaeth

Sefyllfa dau – Effaith ymyrraeth premiwm disgybl

Yn yr ysgol gynradd maint canolig hon, gofynnodd yr arweinwyr i'r tîm adolygu chwilio am dystiolaeth am y graddau y mae eu cynlluniau ar gyfer cyllid y grant datblygu disgyblion yn cael effaith ar ddisgyblion sy'n gymwys. Roeddent yn amau, er bod dull tebyg iawn yn cael ei ddefnyddio, nad oedd yr arfer yn gyson ar draws yr ysgol, ac roeddent yn awyddus i ddeall pam.

Petai chi oedd yn cynllunio'r adolygiad hwn, pa ffynonellau tystiolaeth allech chi eu defnyddio?

Yr adolygiad – Casglu ystod a dyfnder y dystiolaeth

Sefyllfa tri – Arweinyddiaeth ganol

Yn yr ysgol gynradd maint canolig hon, gofynnodd yr arweinwyr i'r tîm adolygu chwilio am dystiolaeth am y graddau mae arweinwyr canol yn dwyn cydweithwyr i gyfrif am eu heffaith ar ddeilliannau.

Roedd yr ysgol wedi ailstrwythuro'r haen arweinyddiaeth ganol yn gynharach yn y flwyddyn, ac mae nifer sylweddol o gydweithwyr sy'n newydd i'r rôl yn y flwyddyn ysgol hon.

Petai chi oedd yn cynllunio'r adolygiad hwn, pa ffynonellau tystiolaeth allech chi eu defnyddio?

Yr adolygiad – Casglu ystod a dyfnder y dystiolaeth

Sefyllfa pedwar – Adborth a marcio effeithiol

Yn yr ysgol gynradd dau-ddosbarth mynediad hon, roedd yr arweinwyr yn gweld, dros amser, bod yr amryfal ddulliau o roi adborth llafar ac ysgrifenedig i ddysgwyr, wedi troi'n feichus i athrawon a chymorthyddion dysgu.

Teimlai arweinwyr yr ysgol eu bod nhw wedi colli golwg ar ba ddulliau oedd y rhai mwyaf effeithiol, felly aethant ar ofyn y tîm adolygu i'w helpu nhw ddeall pa ddulliau oedd yn cael yr effaith fwyaf. Roeddent eisiau deall hyn o safbwynt athrawon, cymorthyddion dysgu, a'r dysgwyr eu hunain.

Petai chi oedd yn cynllunio'r adolygiad hwn, pa ffynonellau tystiolaeth allech chi eu defnyddio?

Yr adolygiad – Casglu ystod a dyfnder y dystiolaeth

Sefyllfa pump – Ysgrifennu

Crëwyd yr ysgol gynradd ffederasiwn hon yn ddiweddar, drwy uno ysgolion babanod ac iau oedd ag un dosbarth mynediad. Nododd ei harweinwyr fod ysgrifennu yn faes ffocws i adolygiad yr ysgol.

Drwy ddod â staff CS a CA2 ynghyd, gwelwyd anghysondeb o ran addysgu ac asesu gwaith ysgrifennu. Roedd y tîm arwain newydd yn awyddus i ddefnyddio arferion yn seiliedig ar dystiolaeth i fwydo i'w hadolygiad a'u cynllun gweithredu.

Petai chi oedd yn cynllunio'r adolygiad hwn, pa ffynonellau tystiolaeth allech chi eu defnyddio?

Yr adolygiad – Casglu ystod a dyfnder y dystiolaeth

Sefyllfa chwech - Mathemateg

Roedd arweinwyr yr ysgol iau tri-dosbarth mynediad hon yn gweld bod cyrhaeddiad a chynnydd mewn mathemateg cryn dipyn yn wannach na mewn llythrennedd, i'r un grwpiau o ddysgwyr.

Nodwyd ystod o drywyddau ymholi ar gyfer yr adolygiad a hynny drwy gyfrwng hunan arfarniad yr ysgol ei hun, adborth gan staff yn cynnwys athrawon a chymorthyddion, arsylwi dosbarthiadau a chraffu ar gynlluniau. Roedd gwybodaeth bynciol a hyder i ddysgu cysyniadau mathemategol, deall camsyniadau disgyblion, ac adnabod ymyraethau priodol, i gyd yn bryder. Cododd hyn gwestiynau hefyd am fodelu ac addysgu strategaethau datrys problem.

Petai chi oedd yn cynllunio'r adolygiad hwn, pa ffynonellau tystiolaeth allech chi eu defnyddio?

Yr adolygiad – Casglu ystod a dyfnder o dystiolaeth
Senario un – Arferion Asesu ar gyfer Dysgu

Gofynnodd arweinwyr ysgol gynradd fawr i'r tîm adolygu gasglu tystiolaeth i ba raddau yr oedd Arferion Asesu ar gyfer Dysgu yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws yr ysgol. Mae gan yr ysgol nod o wreiddio ymarferion asesu ar gyfer dysgu ymhellach ac yn dymuno sefydlu pa agweddau ar yr arfer yr oedd pawb yn eu deall yn dda. Roeddent hefyd eisiau sefydlu ymhle yr oedd arfer dda eisoes yn bodoli, a lle'r oedd bylchau, er mwyn iddynt allu adeiladu ar wybodaeth wrth ddatblygu ymarfer asesu ar gyfer dysgu ymhellach yn y flwyddyn academaidd nesaf.

Pe baech chi’n cynllunio'r adolygiad hwn, pa ffynonellau tystiolaeth y gallech eu defnyddio?

Yr adolygiad – Casglu ystod a dyfnder o dystiolaeth Senario un – Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd - AAAA

Mae gan yr ysgol uwchradd hon (11 i 18), sydd â 1150 o ddisgyblion ar y gofrestr, gyfran uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion sy'n derbyn premiwm disgybl (33%) a hefyd cyfradd uwch na'r cyfartaledd gydag AAAA (25%). Mae cyfran is na'r cyfartaledd o ddisgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY)(12%). Mae presenoldeb yn yr ysgol tua'r cyfartaledd ar gyfer yr holl ddisgyblion ond mae peth absenoldeb cyson o fewn y grŵp AAAA. Mae olrhain data yn dangos bod cyflawniad disgyblion ag AAAA yn anghyson.

Pe baech yn cynllunio'r adolygiad hwn, pa ffynonellau tystiolaeth y gallech eu defnyddio?

Yr adolygiad – Casglu ystod a dyfnder tystiolaeth
Senario dau – Ymddygiad

Yn ystod y 18 mis diwethaf mae arweinwyr yn yr ysgol Uwchradd 11-16 hon gyda thua 860 disgybl wedi rhoi strategaethau ar waith i wella ymddygiad ac agweddau at ddysgu. Maent o'r farn fod gwelliannau wedi eu gwneud o fewn gwersi ond bod llai o gynnydd wedi bod pan fo' disgyblion mewn sefyllfaoedd llai strwythuredig.

Pe baech yn cynllunio'r adolygiad hwn, pa ffynonellau tystiolaeth y gallech eu defnyddio?

Senario tri – Cynnydd disgyblion gyda chyrhaeddiad uchel blaenorol

Mae gan yr ysgol uwchradd 11-16 hon â 820 o ddisgyblion, ganlyniadau CA4 sydd yn gyson yn uwch na'r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi nodi bod sicrhau cynnydd ar gyfer y disgyblion uchel eu cyrhaeddiad yn fwy anghyson, gyda deilliannau arbennig o anghyson ar gyfer y disgyblion hyn mewn Mathemateg ac Ieithoedd Tramor Modern.

Pe baech yn cynllunio'r adolygiad hwn, pa ffynonellau tystiolaeth y gallech eu defnyddio?